# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd
yn rhithiol dros Zoom
**Nos Iau 19 Medi 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd David Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Lowri Jones.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Carwyn Edwards, Mary Hayes, Anwen Jones a Beca Roberts.

2. **Meleri Davies a Donna Watts, Partneriaeth Ogwen**
   Cafwyd diweddariad gan Meleri a Donna ar holl brosiectau Partneriaeth Ogwen, a chafwyd sgwrs ynglŷn ag ail strwythuro'r sefydliad yn dilyn ymddiswyddiad Meleri. Diolchwyd i Meleri Davies am ei holl waith dros y blynyddoedd, ac yn dymuno yn dda iddi hi i'r dyfodol.

3. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 **Llwybr Rhif 3** - gwaith gwella llwybr troed - ar y gweill.

4.2 **Seddi Gwag -** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag eto, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc wedi cysylltu gyda Ysgol Llandygai ynglŷn â diffyg cynrychiolaeth ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol - dim ymateb hyd yn hyn.

4.3 **Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts hefyd wedi gwneud cais am fin ar bont Penrala yn Nhregarth – ar y gweill.

4.4 **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Adroddwyd y Clerc fod y llinellau melyn dwbl wedi cael ei osod, ond nid y 'road studs' coch.

4.4 **Pontydd Penrala a Coetmor -** Gordyfiant o iorwg ar y pontydd hyn – cadarnhawyd Cyngor Gwynedd ei fod ar y rhaglen waith.

**4.5 Llecyn Tir Bont Twr** - Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran Lleiniau Tir yng Nghyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn. Nodwyd fod y Clerc wedi ymateb i Savills i nodi ein bod yn y broses o gael cyngor ychwanegol ar y mater.

**4.6 Cae Pêl-droed Tregarth -** Adroddwyd fod y Cadeirydd, y Cyng. Dafydd Owen a'r Clerc wedi cyfarfod a Mark Hughes ar y cae pêl droed i drafod y cynlluniau posib. Nodwyd fod y pystiau gol dal heb ei rhoi ar y safle, y Clerc i holi. Y Clerc i wahodd Mark Hughes i gyfarfod mis Hydref i drafod eu cynlluniau ar gyfer y cae.

**4.7 Trelar ger Bro Syr Ifor -** Adroddwyd y Clerc fod y car wedi cael ei gasglu ond fod y trelar dal ar y safle. Y Clerc wedi cysylltu gydag Adra nifer o weithiau am y trelar - ar y gweill.

**4.8 Pont y Pandy -** Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen ei fod yn anfodlon gyda ymateb NMWTRA, a bod angen archwiliad diogelwch ar y safle. Y Clerc i gysylltu gyda NMWTRA i amlygu'r pryderon ac i ofyn am archwiliad diogelwch manwl ar y safle.

**4.9 Polisi Iaith y Cyngor –** Cadarnhawyd bydd y Cyng. Iwan Hywel wedi danfon templed ddrafft o bolisi iaith erbyn y cyfarfod nesaf.

**5. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Medi 2024'

**5.1 Ysgol Dyffryn Ogwen – Gwobrau Ymdrech** – Penderfynwyd fod y Cyngor eisiau cyfrannu £150 eto eleni.

**5.2 Philip a Victoria Williams - Pryderon cais cynllunio Tanysgafell Isaf -** Derbyniwyd llythyr gan gymdogion lleol yn amlygu eu pryderon ynghylch cais cynllunio am fynediad newydd yn Tanysgafell Isaf. Penderfynwyd bydd y Cynghorwyr yn mynd i edrych ar y safle ac yno danfon eu sylwadau at y Clerc.

**5.3 Cyng. Carwyn Edwards** - Nodwyd fod y Cyng. Carwyn Edwards wedi ymddiswyddo o'r Cyngor. Y Clerc i hysbysu'r adran etholiadau yng Nghyngor Gwynedd. Y Cyngor i ethol Is-gadeirydd newydd yn y cyfarfod nesaf, i Glerc i gynnwys ar yr agenda.

**6. Gwaith y mis**

Dim.

**7. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**7.1 Canolfan Tregarth** - Derbyniwyd diweddariad gan y Cyng. Huw Jones am ddatblygiadau diweddar yn y Ganolfan.

**7.2 Panel Cyswllt Chwarel y Penrhyn -** Derbyniwyd crynodeb gan y Cyng. Dafydd Roberts ar faterion y chwarel. Nodwyd hefyd fod problemau parcio ger Pont Twr, a bod y Cyng. Beca Roberts mewn cyswllt gyda'r chwarel am hyn.

**7.3 Murlun Canolfan Tregarth** - Adroddwyd y Clerc ei fod wedi derbyn caniatâd gan y Cyngor Cymuned, Pwyllgor y Ganolfan a Chyngor Gwynedd, ac wedi bod yn llwyddiannus efo'r cais grant. Nodwyd y Clerc ei fod wedi drafftio briff a fydd hwn yn cael ei gylchredeg i artistiaid lleol drwy GARN. Fydd angen i artistiaid datgan diddordeb a danfon dyfynbris erbyn dydd Gwener, 27ain o Fedi. Adroddwyd fod y Clerc yn ymweld â disgyblion Ysgol Tregarth ar y 1af o Hydref i gael syniadau, ac am gynnal noson ymgynghori yn y Ganolfan, dyddiad i'w gadarnhau.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**8.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**9. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Archwilio Cymru | Archwiliad Allanol 2021-22 | £300.00 |
| Cyngor Gwynedd | Archwiliad Mewnol 2023-24 | £420.00 |
| Un Llais Cymru | Hyfforddiant Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu | £40.00 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0728/16/LL** | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0048/16/LL** | Ynys Ganol, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu Menage gydag arwyneb tywod a ffibr gyda ffensys Post a Rheilen o'i amgylch ar gyfer defnydd preifat yn unig.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **NP3/16/28C** | Tir ger Maes Parcio Ogwen, Nant Ffrancon, Bethesda.<br>Cynyddu uchder y tŵr telathrebu 15.5m presennol i 17.9m ar gyfer antenau ychwanegol a gosod offer ychwanegol ar y ddaear mewn compownd estynedig<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0426/16/DT** | Cae Herfyn Cottage Tal Gae, Tregarth<br>Hafdy pren newydd i gymryd lle'r presennol<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C24/0422/16/LL** | Heddlu Gogledd Cymru, The Western Traffic Base, Llandygai,<br>Tynnu'r gatiau presennol a gosod gatiau trydan mwy yn eu lle.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0711/16/LL** | Tanysgafell Isaf, Coed y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** Gwrthod – sylwadau wedi'i danfon. |

**12. Unrhyw fater brys arall**
Dim.

**13. Crynodeb Llais Ogwan**
Penderfynwyd cynnwys yr isod:
- Murlun Ganolfan Tregarth
- Problemau parcio ger Pont Twr
- Gwobrau Ymdrech Ysgol Dyffryn Ogwen
- Newidiadau Partneriaeth Ogwen